

# GWYBODAETH A CHYMORTH AM GLEFYD PARKINSON

# CYMUNED GYFAN SYDD YN GEFN I TI

Beth bynnag yw eich taith gyda chlefyd Parkinson, nid ydych ar eich pen eich hun. O'r eiliad y byddwch chi neu anwylyn yn cael diagnosis, neu pryd bynnag y byddwch yn teimlo'n barod, gallwn eich rhoi mewn cysylltiad â'r pethau sydd eu hangen arnoch i'ch helpu i deimlo bod gennych fwy o reolaeth dros fywyd gyda chlefyd Parkinson.

Mae'r daflen hon yn esbonio'r holl ffyrdd y gallwch gael gwybodaeth a chymorth.



I gael gwybodaeth a chymorth, ffoniwch **0808 800 0303** neu ewch i **parkinsons.org.uk/informationsupport**

# CYNGHORWYR CLEFYD PARKINSON

Gall ein tîm o gynghorwyr arbenigol roi gwybodaeth am unrhyw elfen o fywyd gyda chlefyd Parkinson.

Gallant drafod rheoli symptomau a meddyginiaeth, gofal cymdeithasol, hawliau cyflogaeth, budd-daliadau a llawer mwy. Mae ein nyrsys arbenigol yn gallu cynnig atebion i unrhyw gwestiynau meddygol sydd gennych.

Gall ein tîm gynnig cymorth emosiynol yn ogystal â chysylltu â gofal iechyd a chymdeithasol a gweithwyr proffesiynol lleol eraill er mwyn sicrhau eich bod yn cael y gofal gorau posibl.

Efallai fod gennych ffrind, aelod o'r teulu neu gydweithiwr â'r cyflwr a'ch bod eisiau eu cefnogi nhw, neu eich bod angen cymorth eich hun.





## Sut i gysylltu â ni:

- Ffoniwch ein tîm ar **0808 800 0303** neu ebostiwch **hello@parkinsons.org.uk**
- Byddwn yn rhoi gwybodaeth arbenigol dros y ffôn, ar ebost, neu gallwn gynnig eich ffonio yn ôl
- Yn dibynnu ar eich sefyllfa, byddwn yn eich rhoi mewn cysylltiad ag un o'n cynghorwyr arbenigol, ein nyrsys neu'n cynnig cymorth wyneb yn wyneb i ymdrin â'ch materion

Mae'r gwasanaeth am ddim ac yn gyfrinachol.

Mae gwasanaeth cyfieithu ar gael os oes angen. Rhowch wybod i ni pan fyddwch yn ffonio.

Rydym ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 9am i 6pm ac ar ddydd Sadwrn 10am i 2pm.

# CYSYLLTU Â PHOBL ERAILL

## Fforwm ar lein

Mae ein fforwm yn lle gweithredol iawn i allu rhannu a sgwrsio gydag eraill sydd yn deall eich sefyllfa, ar amser sy'n gyfleus i chi. Gallwch ddefnyddio'r wefan i rannu eich meddyliau a'ch profiadau yn ymwneud â phob math o broblemau y gallech fod yn eu profi.

Ymunwch â ni yn **parkinsons.org.uk/forum**

## Grwpiau Lleol

Os hoffech gwrdd â phobl eraill sy'n byw gyda chlefyd Parkinson yn eich ardal leol, gallwch gael cyfeillgarwch a chefnogaeth trwy ein rhwydwaith o wirfoddolwyr a grwpiau lleol. Rydym yn cynnig gweithgareddau all eich helpu i ddelio gyda'r cyflwr, gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer corff a diwrnodau allan i'ch galluogi i fyw bywyd i'r eithaf.

Ceir grwpau lleol o bob mewn a maint, ac mae rhai sydd yn benodol ar gyfer pobl â chlefyd Parkinson sydd o oed gweithio.

Gallwch ganfod mwy trwy ffonio **0808 800 0303** neu fynd i **parkinsons.org.uk/support**

## Cyfryngau cymdeithasol

Os ydych chi ar Facebook, Twitter neu Instagram, gallwch gael diweddariadau rheolaidd am yr elusen, ein hymchwil a newyddion eraill am glefyd Parkinson trwy ein dilyn.

**facebook.com/parkinsonsuk**
**twitter.com/parkinsonsuk**
**@parkinsonsuk ar Instagram**



# CAEL GWYBODAETH DDIBYNADWY AM GLEFYD PARKINSON

## Ein gwefan ac adnoddau i'w hargraffu

Rydym yn cynhyrchu gwybodaeth ar bob agwedd ar fyw gyda chlefyd Parkinson. Mae ein gwybodaeth wedi ei ysgrifennu i chi, p'un ai bod gennych glefyd Parkinson eich hun neu'n cefnogi neu'n gofalu am rywun â'r cyflwr.

Rydym yn trafod popeth gan gynnwys symptomau, triniaethau, bod yn actif, arian, gyrru a theithio.

Rydym wedi ein hachredu gan y Fforwm Gwybodaeth i Gleifion. Mae hyn yn golygu bod ein gwybodaeth wedi cael ei hasesu'n annibynnol i sicrhau ei bod yn ddibynadwy. Rydym:

- yn cynnwys pobl â chlefyd Parkinson wrth ddatblygu a golygu gwybodaeth
- yn cael adborth gan weithwyr iechyd proffesiynol ac arbenigwyr
- yn defnyddio'r dystiolaeth glinigol ddiweddaraf
- yn adolygu ein gwybodaeth yn gyson

Mae ein gwybodaeth diweddaraf ar gael yn **parkinsons.org.uk/informationsupport**

Neu gallwch archebu copïau wedi eu hargraffu yn **parkinsons.org.uk/shop**

## Cylchgrawn Parkinson


Mae *cylchgrawn Parkinson* yn llawn erthyglau i'ch helpu i fyw'n iach a rheoli eich cyflwr. Yn y cylchgrawn mae:

- straeon a phrofiadau gan bobl sy'n dioddef neu'n gofalu am rhywun â chlefyd Parkinson
- sesiynau holi ac ateb gydag arbenigwyr
- awgrymiadau gan bobl sydd wedi eu heffeithio gan glefyd Parkinson

Mae copïau wedi eu hargraffu o ansawdd da o'r cylchgrawn yn cael eu hanfon at bob aelod o Dîm Parkinson dair gwaith y flwyddyn. Gallwch ganfod sut i ymaelodi ar y dudalen nesaf.

Neu ewch i'n gwefan i'w ddarllen **parkinsons.org.uk/magazine**




## Cael gafael ar ein gwybodaeth

Rydym yn cynhyrchu amrywiaeth o adnoddau mewn ieithioedd eraill, yn ogystal ag adnoddau mewn fformatiau hygyrch. Mae hyn yn cynnwys print bras a thestun sy'n hawdd i'w ddarllen.

Gallwch ganfod mwy yn **parkinsons.org.uk/accessibleformats**

# CADW MEWN CYSYLLTIAD

## Ymunwch â Tim Parkinson

Byddwch yn rhan o'r ymgyrch i drawsnewid bywydau a chanfod iachâd.

Byddwn yn anfon Pecyn Cymorth Tîm yn llawn adnoddau i'ch helpu i ddangos eich cefnogaeth a gweithredu. Byddwch yn cael bathodyn pin i'w wisgo gyda balchder, cerdyn aelodaeth a chasgliad o addewidion er mwyn i chi allu helpu pobl eraill i ddeall mwy am glefyd Parkinson.

**Yn ogystal a'ch Pecyn Cymorth Tîm, byddwch yn derbyn:**

- *Cylchgronau Parkinson a Progress, naill ai drwy'r post neu ar ebost*
- y cyfe i ddod i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Parkinson's UK
- y cyfle i ffurfio dyfodol yr elusen drwy bleidleisio dros ymddiriedolwyr.

Ewch i **parkinsons.org.uk/membership**, ebostwich **membership@parkinsons.org.uk** neu ffoniwch ni ar **0800 138 6593** i ganfod mwy am ymuno.

## Rydyn ni'n gwrando

Os oes unrhyw beth yr hoffech ei ddweud wrthym, cysylltwch â ni.

Ffoniwch **0800 138 6593**

E-bostiwch **feedback@parkinsons.org.uk**

Ysgrifennwch at Parkinson's UK,
215 Vauxhall Bridge Road
Llundain, SW1V 1EJ



**Ni yw Parkinson's UK. Wedi ein grymuso gan bobl. Wedi ein hariannu gennych chi. Yn gwella bywyd i bawb sydd wedi eu heffeithio gan glefyd Parkinson. Gyda'n gilydd fe wnawn ganfod iachâd.**

PARKINSON'S UK


Llinell Gymorth Gyfrinachol am Ddim
**0808 800 0303**
Dydd Llun i Ddydd Gwener 9am–6pm,
Dydd Sadwrn 10am–2pm
(cyfieithu ar gael)
Cyfnewid NGT **18001 0808 800 0303**
(ar gyfer defnyddwyr ffôn testun yn unig)
**hello@parkinsons.org.uk**
**parkinsons.org.uk**

Parkinson's UK, 215 Vauxhall Bridge Road,
Llundain, SW1V 1EJ


Registered with FUNDRAISING REGULATOR


Last updated: April 2023. Next review due 2026.
Order Code: INFOB0014



Parkinson's UK is the operating name of the Parkinson's Disease Society of the United Kingdom. A charity registered in England and Wales (258197) and in Scotland (SC037554).
© Parkinson's UK 4/23 (CS3920)


Trusted Information Creator
Patient Information Forum